# Pedr a Cornelius



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn Actau 10, rydym yn darllen am gyfarfod anhygoel rhwng dau berson gwahanol iawn, Peter a Cornelius. Roedd Pedr yn ddyn Iddewig a ddilynodd Iesu, tra roedd Cornelius yn filwr Rhufeinig ac yn Genhedl-ddyn. Er gwaethaf eu gwahaniaethau, roedd Duw wedi trefnu iddyn nhw gyfarfod er mwyn iddyn nhw ill dau ddod i adnabod grym yr Efengyl.

**Pwyntiau allweddol:**

- Dylem ufuddhau i Dduw
- Nid yw Duw yn dangos ffafriaeth
- Bydd pwy bynnag sy'n credu yn Iesu yn cael ei achub

## Canllaw Gwersi

Gofynnwch i'r plant ydyn nhw'n gwybod pwy yw Pedr. Eglurwch fod Pedr yn un o ffrindiau a chynorthwywyr agosaf Iesu. Rhowch rai enghreifftiau o bethau y gallan nhw eu gwybod am Pedr (Efallai y byddwch chi'n cyfeirio at un arall o'n pecynnau gwersi fel Pedr, Pysgotwr Dynion - Marc 1:14-17; Pedr yn Cerdded ar y Dŵr - Mathew 14:22-33; Dihangfa Wyrthiol Pedr o'r Carchar - Actau 12:5-17; Pedr yn Iacháu'r Cardotyn Cloff- Actau 3:1-9 a Phedr yn Pregethu Adeg y Pentecost).

Eglurwch fod Pedr wedi dod yn arweinydd pwysig yn yr eglwys gynnar. Teithiodd o gwmpas, yn pregethu ac yn dysgu pobl am Iesu ac yn annog eraill i'w ddilyn. Ysgrifennodd lythyrau sy'n rhan o'r Beibl heddiw, yn rhoi cyfarwyddiadau i Gristnogion cynnar am sut i fyw eu bywydau mewn ffydd.

Siaradwch am sut roedd Cornelius a Peter o ddau gefndir gwahanol iawn. Roedd Cornelius yn Genhed-ddyn neu'n berson nad oedd yn Iddew, tra roedd Pedr yn Iddew. Cafodd y gwahaniaeth hwn effaith fawr ar eu bywydau. Meddyliwch am bobl neu bethau heddiw sy'n wahanol iawn i'w gilydd e.e cyfoethog neu dlawd. hen neu ifanc.

Soniwch am ufudd-dod. Meddyliwch am rai ffyrdd y gallwn ni ufuddhau i Dduw. Weithiau, efallai y byddwn ni'n deall pam mae Duw, neu ein rhieni yn gofyn inni wneud rhywbeth. Weithiau, efallai na fyddwn ni. Siaradwch am rai pethau y gofynnwch i'ch plant eu gwneud a gofynnwch iddynt resymu pam y gofynnwch iddyn nhw wneud y pethau hynny.Er enghraifft pam mae rhieni yn gwneud i blant gymryd bath neu fwyta llysiau.

Trafod ffafriaeth. Siaradwch am bethau mae eich plentyn yn eu hoffi a phethau nad ydynt yn eu hoffi. Gyda phlant hŷn, efallai y byddwch yn trafod a ydynt erioed wedi cael eu ffafrio neu wedi teimlo bod rhywun arall yn cael ei ffafrio .

Soniwch am freuddwydion. Trafodwch sut mae breuddwydion fel arfer yn nonsens ond eglurwch fod Duw weithiau'n siarad â phobl mewn breuddwydion. Achubodd Duw lawer o fywydau unwaith pan gafodd Pharo freuddwyd a datgelodd Joseff ei hystyr. Pan gafodd Iesu ei eni, siaradodd Duw hefyd â Joseff mewn breuddwyd. Gwyddai Pedr fod y freuddwyd a gafodd wedi ei hanfon gan Dduw i ddatguddio rhywbeth iddo.

Dewisodd Duw genedl Israel i fod yn bobl arbennig iddo. Rhoddodd reolau iddyn nhw fyw wrthyn nhw a galw arnyn nhw i'w ddilyn ac ufuddhau iddo. Roedd un o'r rheolau a roddodd i'r bobl yn ymwneud ag anifeiliaid glân ac anifeiliaid aflan. Efallai y byddwch yn dewis chwarae gêm a thaflu anifeiliaid glân neu aflan i mewn i gynfas i ailadrodd yr hyn a welodd Pedr. Gallwch hefyd chwarae gêm gyda'r plentyn a chaniatáu iddo ddefnyddio'r anifeiliaid i actio "breuddwyd" wrth ddyfalu beth mae'n ei olygu.

Dywedwch sut y defnyddiodd Duw Cornelius a'r weledigaeth i ddysgu Pedr a ninnau fod yr Efengyl i bawb, waeth beth fo'n cefndir. Dysgodd Pedr o'r weledigaeth, er gwaethaf ei fagwraeth fel Iddew a'i amheuon ei hun, y dylai fod yn agored i rannu cariad Duw â'r Cenhedloedd.

Er bod Duw wedi dewis Israel fel Ei bobl arbennig, pan ddaeth Iesu, cynigiodd iachawdwriaeth i unrhyw un oedd yn credu ynddo. Nid oes ots gan Dduw pa liw yw croen neu wallt person nac o ble y daeth na pha mor dal ydyn nhw, gall unrhyw un sy'n credu yn Iesu ddod yn blentyn iddo.

Dylen ni gofio bod y Newyddion Da am Iesu i bawb, nid dim ond pobl fel ni. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth ledaenu neges cariad a gras Duw.

© 2025 truewaykids.com



Dysgodd Pedr Cornelius am Iesu, a chredodd Cornelius a chafodd ei fedyddio. O'r diwrnod hwnnw ymlaen, bu Cornelius yn byw ei fywyd i ogoneddu Iesu.

Ar ôl gwrando’n ofalus ar yr hyn a ddywedodd Pedr bod ffydd yn Iesu yn ddigon i achub person, penderfynodd y rhai o’i gwmpas gael eu bedyddio.

Dysgodd Pedr a Cornelius nad oes neb yn cael ei eithrio o gariad a iachawdwriaeth Duw os oes ganddyn nhw ffydd yn Ei Fab Iesu.





# Pedr a Cornelius

Roedd  Cornelius yn filwr Rhufeinig .

Roedd ef a'i deulu yn bobl grefyddol iawn, ac yr oedd Cornelius bob amser yn garedig wrth y rhai mewn angen.

Un diwrnod, cafodd brofiad rhyfeddol. Ymddangosodd angel iddo a dweud wrtho am anfon am yr apostol Pedr.

Roedd Cornelius wedi’i synnu ond yn awyddus i ufuddhau.

Roedd Cornelius yn llawn cyffro ac anfonodd weision allan i ddod o hyd i Pedr.



Yn y cyfamser, yn Jopa, roedd Pedr yn cael ei weledigaeth ei hun.

Yn y weledigaeth, gwelodd gynfas yn llawn o bob math o anifeiliaid aflan, fel moch a nadroedd.

Dywedodd llais wrth Pedr am godi a bwyta, ond gwrthododd. Dywedodd nad oedd erioed wedi bwyta unrhyw beth a oedd yn aflan yn ôl y gyfraith Iddewig.

Clywodd Pedr lais yn dweud, "Pedr, Os ydy Duw wedi dweud bod rhywbeth yn iawn i'w fwyta, paid ti â dweud fel arall!"

Pan ddeffrodd Pedr o'r weledigaeth, roedd yn gwybod bod Duw yn ceisio dweud rhywbeth wrtho.





Ar yr un pryd, cyrhaeddodd negeswyr Cornelius y tŷ lle roedd  Pedr.

Cytunodd Pedr i fynd gyda nhw i gwrdd â Cornelius.

Pan gyrhaeddodd Pedr dŷ Cornelius, deallodd fod Duw wedi dod â nhw at ei gilydd yn fwriadol—er mwyn i bawb ddysgu am Iesu a chael eu hachub trwyddo.

Sylweddolodd Pedr y gallai hyd yn oed pobl nad ydynt yn Iddewon dderbyn iachawdwriaeth trwy fod â ffydd yn Iesu.

# Gêmau a Gweithgareddau

## Didoli'r Anifeiliaid



**Deunyddiau:** Lluniau o anifeiliaid gwahanol (anifeiliaid fferm, anifeiliaid gwyllt, anifeiliaid anwes, ac ati) Dwy fasged fawr gyda labeli.

**Cyfarwyddiadau:** Dangoswch y lluniau o anifeiliaid gwahanol i'r plentyn a gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw'n gwybod enwau unrhyw un o'r anifeiliaid.

Gofynnwch i'r plentyn ddidoli'r anifeiliaid yn ddau grŵp e.e. anifeiliaid fferm ac anifeiliaid gwyllt. Eu rhoi yn y blwch cywir.

Wrth iddynt weithio, anogwch nhw i enwi'r anifeiliaid y maent yn eu didoli a siarad am unrhyw nodweddion diddorol sydd gan yr anifeiliaid.

Ailadroddwch y gweithgaredd eto gyda lluniau anifeiliaid gwahanol neu gategorïau o anifeiliaid.



## Cyflwyno'r neges

Eglurwch i'r plentyn ei fod yn mynd i esgus bod yn berson sy'n cario neges arbennig neu degan meddal i ffrind

Rhowch bensil ac amlen i bob plentyn.

Helpwch nhw i ysgrifennu neges neu dynnu llun ar gyfer eu ffrind.

Rhowch degan neu wobr i bob plentyn a dywedwch mai dyma'r anrheg y bydd yn ei roi i'w ffrind.

Gofynnwch i'r plentyn gyflwyno'r neges(neu'r tegan meddal) i'r person a'r nodyn.

Soniwch am y negeswyr a ddaeth at Pedr.

Soniwch mai'r neges orau y gallwn ei chyflwyno yw'r NewyddionDa am Iesu.

## Arbennig i Dduw



Cyn y gweithgaredd, torrwch siapiau pobl allan o gerdyn neu bapur.

Helpwch nhw i addurno eu pobl bapur trwy roi creonau neu ddeunydd crefft arall iddynt. Anogwch y plant i wneud pob person yn unigryw gyda gwahanol liwiau, meintiau a nodweddion. Gofynnwch gwestiynau am eu creadigaethau fel pa liw yw eu person papur, pa ddillad sydd arnyn nhw, a pha liw llygaid sydd ganddyn nhw.

Nodwch sut y gwnaethon nhw saernïo pob person yn unigol, yn union fel y mae pob un ohonom yn unigryw ac yn arbennig.

Eglurwch i'r plant, yn union fel y gwnaethon nhw gymryd amser i greu person papur arbennig, fe gymerodd Duw amser i greu pob un ohonom ni'n arbennig hefyd.

© 2025 truewaykids.com

**Trefnwch yr anifeiliaid i ble y gallwch ddod o hyd iddynt**




© 2025 truewaykids.com

# Cyflwyno'r neges i Pedr



© 2025 truewaykids.com

# Ffeindiwch 7 Gwahaniaeth





© 2025 truewaykids.com

# Gwnaeth Duw fi'n arbennig

Tynnwch lun eich wyneb

Hoff fwyd

Hoff degan

Hoff le

Dw i’n dy foli di, am fod dy waith di mor syfrdanol a rhyfeddol! Mae’r cwbl rwyt ti’n ei wneud yn anhygoed! Ti’n fy ‘nabod i’r dim! Salm 139:14

© 2025 truewaykids.com

# Crefft Gweledigaeth Pedr




## Beth sydd ei angen arnoch chi:

Tudalennau templed,

Offer lliwio,

Siswrn.

## Beth i'w wneud:



Lliwiwch y tudalennau templed.



Torrwch dudalen anifeiliaid allan ac ar draws y llinellau uwchben Peter.



Rhowch lun yr anifail trwy'r ddau doriad.

Nawr gallwch chi symud y papur i fyny ac i lawr.

© 2025 truewaykids.com

© 2025 truewaykids.com





© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com



© 2025 truewaykids.com

© 2025 truewaykids.com





© 2025 truewaykids.com

# Amser Addoli



Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Pedr a Cornelius - Stori - Trueway Kids

https://youtu.be/vk6d7_vzLU4

Jesus loves the little children - Trueway Kids

https://youtu.be/BBhTfVpf7CU

Go into the world - Trueway Kids

https://youtu.be/cb9OqJw7ctM



# Gweddi

Diolch i Ti dy fod wedi gwneud pob un ohonom yn arbennig ac unigryw.

Helpa ni i ufuddhau i ti a rhannu'r NewyddionDa am Iesu gyda phawb.

**Am fwy o wersi am ddim ewch i**

**TRUEWAY KIDS.COM**

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2025 truewaykids.com